# DIWRNOD ADDYSG IRIS PRIZE EDUCATION DAY

**Hydref 10 October 2017**

**Cineworld, Mary Ann Street, Cardiff, CF10 2EN**

We're pleased to invite you to join us for a day dedicated to young people, between the ages of 12 and 18, covering all things film, including the opportunity to meet and question industry professionals and watch films featured at the Iris Prize Festival and created by Iris Prize Outreach.

With support from the Welsh Government, we are pleased to confirm that there is no cost in attending the day and lunch is included!

**09:15 Arrive & register**

**09:30 Introduction**
Berwyn Rowlands, Festival Director and Mark Williams, Iris Prize Outreach

**09:45 The Professionals**
**(see also teacher's workshop below)**
This is your chance to hear from industry professionals on what their role entails and how they got in to film, together with an opportunity for you to ask questions to further your own career.
We're delighted to welcome to our panel this year:

**Lisa Donato -** Lisa is a writer, director, and activist from Billings, Montana and based in Austin, Texas. Her award-winning work has screened at hundreds of film, music, and art festivals worldwide. The first feature screenplay that she co-wrote, *Signature Move*, world-premiered at SXSW and recently won grand jury prize for best U.S. narrative feature at Outfest (2017). Her

Rydyn ni'n falch o gael eich gwahodd i ymuno â ni ar gyfer diwrnod arbennig i bobl ifanc, rhwng 12 a 18 oed, yn trafod popeth ym maes ffilm, gan gynnwys cyfle i gwrdd a holi gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant ac i wylio ffilmiau a ddangoswyd yng Ngŵyl Gwobr Iris ac sydd wedi'u creu drwy brosiect Gwaith Maes Gwobr Iris.
Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, rydyn ni'n falch o gadarnhau bod mynediad i'r diwrnod yn rhad ac am ddim ac yn cynnwys cinio!

**Cyrraedd a chofrestru**

**Cyflwyniad**
Berwyn Rowlands, Cyfarwyddwr yr Ŵyl a Mark Williams, Gwaith Maes Gwobr Iris

**Pobl o'r Diwydiant**
**(gweler hefyd y gweithdy athrawon isod)**
Dyma eich cyfle chi i glywed pobl broffesiynol o'r diwydiant yn esbonio beth yw eu swyddi a sut y daethon nhw i fyd ffilmiau, a chyfle i chi ofyn cwestiynau er mwyn hybu eich gyrfa chi eich hunan.
Rydyn ni'n falch iawn o gael croesawu ein panel eleni:

**Lisa Donato** – Awdur, cyfarwyddwr ac ymgyrchydd o Billings, Montana, yw Lisa, ac mae'n byw yn Austin, Texas. Mae ei gwaith wedi ennill gwobrau ac wedi'i ddangos mewn cannoedd o wyliau ffilm, cerddoriaeth a chelfyddydau ledled y byd. Cafodd y sgript ffilm nodwedd gyntaf iddi ei chyd-ysgrifennu, *Signature Move*, ei dangos am y tro cyntaf yng ngŵyl SXSW ac enillodd wobr yr uchel-reithgor am ffilm nodwedd naratif o'r Unol Daleithiau

short comedy, *Spunkle*, won the Cannes LGBTQ Emerging Filmmaker Showcase (2017) and her short drama, *The News Today*, was shortlisted for the prestigious Iris Prize. Lisa strives to bring social awareness to marginalized and invisible communities and believes that comedy will mend the tense and politically-polarized culture of the U.S.

yng ngŵyl Outfest (2017). Llwyddodd ei ffilm fer gomedi, *Spunkle*, i ennill gwobr Arddangos Gwneuthurwr Ffilmiau Newydd LHDTQ yn Cannes, ac mae ei ffilm fer *The News Today* ar restr fer gwobr fawreddog Iris. Mae Lisa'n ceisio dod ag ymwybyddiaeth gymdeithasol i gymunedau'r cyrion a chymunedau anweledig, ac mae'n credu y bydd comedi yn trwsio'r tyndra a'r pegynu sydd i'w weld yn yr Unol Daleithiau.

**Fawzia Mirza -** Fawzia is an actor, producer, writer who believes in the power of comedy to tackle divisive topics and breakdown stereotypes. She was named one of '10 Filmmakers to Watch' by Independent Magazine, a White House 'Champion of Change' in Asian American Art & Storytelling, a 3Arts Grant Recipient in Acting, a 'Top 10 Creative' by *Indiewire* magazine and '100 Ladies We Love' by GO Magazine. She is also a 2018 Djerassi Artist in Residence. Her short films have screened at festivals all over the world. She is featured in the acclaimed Emmy-nominated and Gotham, Peabody and GLAAD-Award winning web series *Her Story*. She's currently adapting her one-woman play, *Me, My Mom & Sharmila* into a screenplay with screenwriter Terrie Samundra. The award-winning film *Signature Move* which which she co-wrote, produced and stars in also features legendary Indian film icon Shabana Azmi; the film won the Grand Jury Prize for US Best Narrative Feature at Outfest.

**Fawzia Mirza** – Actor, cynhyrchydd ac awdur yw Fawzia, sy'n credu yng ngallu comedi i fynd i'r afael â phynciau sy'n achosi rhwyg rhwng pobl ac i chwalu ystrydebau. Cafodd ei henwi yn un o '10 Gwneuthurwr Ffilm i'w Gwylio' gan gylchgrawn Independent, yn 'Hyrwyddwr Newydd' mewn Celf a Straeon Asiaidd Americanaidd gan y Tŷ Gwyn, yn Dderbynnydd Grant Actio 4Arts, yn un o '10 Creadigol' cylchgrawn *Indiewire* ac yn un o '100 Fenyw Rydyn ni'n eu Caru' cylchgrawn GO. Mae hefyd yn Artist Preswyl Djerassi 2018. Mae ei ffilmiau byrion wedi eu dangos mewn gwyliau ledled y byd. Mae hi i'w gweld yn y gyfres ar-lein *Her Story* sydd wedi'i henwebu am Emmy ac wedi ennill gwobrau Gotham, Peabody a GLAAD. Ar hyn o bryd mae'n addasu ei sioe un fenyw, *Me, My Mom & Sharmila* yn sgript ffilm gyda'r sgriptiwr Terrie Samundra. Mae'r ffilm *Signature Move* y bu hi'n ei chyd-ysgrifennu, yn ei chynhyrchu ac yn actio ynddi hefyd yn cynnwys yr eicon ffilmiau chwedlonol o India, Shabana Azmi; enillodd y ffilm Wobr yr Uchel-Reithgor am Ffilm Nodwedd Naratif Orau'r Unol Daleithiau yn Outfest.

**Third panellist to be advised**

**Trydydd panelydd i'w gadarnhau**

**09:45 Addressing LGBT discrimination in schools**

An opportunity for teaching staff to hear the latest ideas on raising awareness in Schools across Wales from our partners, Stonewall Cymru.

**Mynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn pobl LHDT mewn ysgolion**

Cyfle i staff dysgu glywed y syniadau diweddaraf ar godi ymwybyddiaeth mewn ysgolion ledled Cymru gan ein partneriaid, Stonewall Cymru.

**10:45 Break**

**Egwyl**

**11:00 Iris Prize Education Outreach Project**

Supported by **Ffilm Cymru Wales**, the Iris Prize team are delighted to screen the following films and give audience members the chance to ask questions of their own contemporaries on the film making programme.

**Prosiect Gwaith Maes Addysg Gwobr Iris**

Gyda chefnogaeth **Ffilm Cymru**, mae tîm Gwobr Iris yn falch o gael dangos y ffilmiau canlynol a rhoi cyfle i aelodau'r gynulleidfa ofyn cwestiynau i'w cyfoedion ar y rhaglen creu ffilmiau.

**2016**

| | |
|---|---|
| **Have Faith** | Ysgol Dyffryn Aman, Rhydaman/Amanford |
| **Plus** | Ysgol Stanwell School, Penarth |

**2017**

| | |
|---|---|
| **Darkness** | Ysgol Gyfun Emlyn, Castellnewydd/Newcastle Emlyn |
| **Truth or Dare** | Ysgol Lewis School, Pengam |
| **Exposed** | Eastern High School, Caerdydd/Cardiff |

Screenings will be followed by interviews with the young filmmakers.

***Does your school wish to join the Iris Prize family and make their own film to raise LGBT+ awareness? Speak to one of the Iris Prize team today to check on availability.***

Ar ôl y ffilmiau bydd cyfweliadau gyda'r gwneuthurwyr ffilmiau ifanc.

***Hoffai eich ysgol chi ymuno â theulu Gwobr Iris a gwneud eu ffilm eu hunain i godi ymwybyddiaeth am faterion LHDT+? Siaradwch gydag un o dîm Gwobr Iris heddiw i holi a oes cyfleoedd ar gael.***

**11:30 Iris in the Community**

Supported by **Big Lottery Wales**, the Iris Prize team are now working with community groups and this is your opportunity to watch and hear about the experience of Trans*form Cymru in making their film **Trans* Mythbusters.**

**Iris yn y Gymuned**

Gyda chefnogaeth **Loteri Fawr Cymru**, mae tîm Gwobr Iris nawr yn gweithio gyda grwpiau cymunedol, a dyma eich cyfle i wylio a chlywed am brofiadau Traws*newid Cymru yn creu eu ffilm nhw **Trans* Mythbusters.**

**11:45 The News Today**

Inspired by the tragic shooting at Orlando's Pulse Nightclub, *The News Today* highlights the last ordinary moments between two men in love.

The screening will be followed by a Q&A with the film director, Lisa Donato on the making of the film.

Ffilm fer sydd wedi'i hysbrydoli gan y saethu yng nghlwb nos Pulse yn Orlando yw *The News Today.* Mae'n canolbwyntio ar eiliadau olaf digon cyffredin ym mywydau dau ddyn sydd mewn cariad.

Bydd sesiwn holi ac ateb ar ôl y ffilm gyda chyfarwyddwr y ffilm, Lisa Donato, a fydd yn trafod y gwaith o greu'r ffilm.

**12:15 Lunch**

**Cinio**

**12:45 Iris Youth Jury**

Before the main festival starts, Education day participants will have their chance to

**Rheithgor Ieuenctid Iris**

Cyn i'r brif ŵyl ddechrau, bydd rhai sy'n cymryd rhan yn y Diwrnod Addysg yn cael

review, with support from our Professionals the short films competing for this year's Iris Youth jury prize. Every young person attending will be able to cast their vote to select this year's winner. The short films pre-selected this year by **Pride Cymru Youth Council** are:

cyfle, gyda chymorth y bobl broffesiynol, i adolygu'r ffilmiau byrion sy'n cystadlu am wobr rheithgor ieuenctid Iris eleni. Bydd pob person ifanc sy'n dod yn cael pleidleisio er mwyn dethol yr enillydd am eleni. Y ffilmiau byrion sydd wedi'u dethol ymlaen llaw gan **Gyngor Ieuenctid Pride Cymru** eleni yw:

**Lily** **Director/Cyfarwyddwr: Graham Cantwell**

**Country/Gwlad: Ireland/Iwerddon Time/Hyd: 22 min/munud Year/Blwyddyn: 2017**

Together, best friends Lily and Simon navigate the treacherous waters of school life, but when a misunderstanding with the beautiful and popular Violet leads to a vicious attack, Lily is faced with the greatest challenge of her young life.

Gyda'i gilydd, mae'r ddau ffrind gorau Lily a Simon yn hwylio dyfroedd peryglus bywyd yn yr ysgol, ond pan fo camddealltwriaeth gyda'r ferch boblogaidd a phrydferth Violet yn arwain at ymosodiad ciaidd, rhaid i Lily wynebu her fwyaf ei bywyd ifanc.

**Sisak** **Director/Cyfarwyddwr: Faraz Ansari**

**Country/Gwlad: India Time/Hyd: 15 min/munud Year/Blwyddyn: 2017**

Set on a bustling Mumbai commuter train, *Sisak* tells the touching story of a romance which develops slowly, through wordless gestures and universal expressions of affection between two strangers.

Ffilm wedi'i gosod ar drên cymudo prysur ym Mumbai yw *Sisak*, sy'n adrodd hanes teimladwy carwriaeth sy'n datblygu'n araf, drwy ystumiau dieiriau a ffyrdd naturiol o fynegi hoffter rhwng dau ddieithryn.

**Leroy** **Director/Cyfarwyddwr: Marley Morrison**

**Country/Gwlad: UK/Prydain Time/Hyd: 20 min/munud Year/Blwyddyn: 2017**

On a deprived council estate in Northeast London, eccentric teenager Leroy Brown spends his days fighting with his wannabe 'gangsta' brother Kenny, making his own jewellery and playing an amusement arcade dance game with best friend Yukiko. The sudden death of his beloved grandfather Nelson forces Leroy out of his shell, but with the help of a cassette tape Nelson left him, Leroy learns what it takes to live in a 'man's world'.

Ar stad tai cyngor ddifreintiedig yng ngogledd-ddwyrain Llundain, mae'r llanc anghyffredin Leroy Brown yn treulio'i ddyddiau yn ymladd gyda'i frawd Kenny sy'n gweld ei hunan fel gangster, yn gwneud ei emwaith ei hunan ac yn chwarae gêm ddawnsio yn yr arcêd gyda'i ffrind gorau Yukiko. Mae marwolaeth sydyn ei dad-cu annwyl Nelson yn gorfodi Leroy o'i gragen, ond gyda chymorth casét a adawyd iddo gan Nelson, mae Leroy'n dysgu beth sydd ei angen er mwyn bod yn rhan o 'deulu dyn'.

**Yellow** **Director/Cyfarwyddwr: Rowyn Mottershead**

**Country/Gwlad: UK/Prydain Time/Hyd: 8 min/munud Year/Blwyddyn: 2017**

A documentary short focused on the lives of transgender and non-binary young adults, the emotions and experiences they go through during the process of transition, and the impact this has on their everyday lives.

Ffilm ddogfen fer yn canolbwyntio ar fywydau oedolion ifanc trawsryweddol ac anneuaidd, yr emosiynau a'r profiadau maen nhw'n mynd drwyddyn nhw yn ystod y broses o drawsnewid, a'r effaith mae hyn yn ei chael ar eu bywydau bob dydd.

**14:30 Finish**

**Diwedd**